

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MAI 2019

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

**3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR
CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

4. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2018/19

Ymhellach i gofnod rhif 94 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Chqwefror 2019, derbyn adroddiad cynnydd ar fuddsoddiadau'r cyngor (copi'n amgaeedig).

5. ADRODDIAD SICRHAD CADEIRYDD ASESU RISG

Ymhellach i gofnod rhif 131 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Mai, derbyn yr adroddiad sicrhad (copi'n amgaeedig) yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.

6. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL - TERFYNOL

Ystyried a cymeradwyo adroddiad yr Archwiliwr Mewnol (copi'n amgaeedig).

7. CYLCH GORCHWYL AR GYFER PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gadarnhau cylch gorchwyl pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r cyngor.

8. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

10. YSWIRIANT CYNGOR TREF Y RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 134 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Mai 2019, cydnabod penderfyniad yr Is-bwyllgor Asesu Risg mewn perthynas â darparu yswiriant ar gyfer y Cyngor Tref.

11. RHEOLIADAU CYFFREDINOL DIOGELU DATA/DEDDFAU DIOGELU DATA

Derbyn a gweithredu argymhellion yr Is-bwyllgor Asesu Risg a mabwysiadu'r dogfennau canlynol:

- 11.1 Cynllun Cyflenwi
- 11.2 Polisi Diwygiedig Duiogelu Data
- 11.3 Hysbysiad Preifatrwydd Mewnol
- 11.4 Hysbysiad Preifatrwydd Allanol
- 11.5 Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- 11.6 Polisi Cyfathrebu a Chyfryngau Cymdeithasol (i ddilyn)
- 11.7 Trefniadau cydymffurfio RhCDD i'w dilyn os oes tor-rheol Data/SAR
- 11.8 Ffurflen Preifatrwydd Cynghorwyr
- 11.9 Hysbysiad Preifatrwydd Ebost
- 11.10 Caniatâd i gadw gwybodaeth

[Oherwydd maint a nifer y dogfennau, dim ond fersiynau digidol sydd wedi eu dosbarthu. Dylai aelodau sydd eisiau copi papur gysylltu â Chlerc y Dref erbyn hanner dydd ar 6ed Mehefin 2019 fan bellaf]

12. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.